# Y PWYLLGOR ARCHWILIO

## DYDD GWENER, 18FED RHAGFYR, 2015

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd C.P. Higgins [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
H.A.L. Evans, J.D. James, A.G. Morgan, E.G. Thomas, G.B. Thomas a D.E. Williams

**Hefyd yn bresennol fel sylwedydd:**
Y Cynghorydd D.M. Jenkins – Yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau

**Yn bresennol o Swyddfa Archwilio Cymru:**
Mr G. Norman

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr C. Moore | - | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr P. Sexton | - | Y Pennaeth Archwilio, Risg a Chaffael |
| Miss H. Pugh | - | Y Rheolwr Archwilio a Risg |
| Mr N. Edwards | - | Y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu |
| Mr A. Jones | - | Swyddog Caffael a Chontractio |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 a.m. - 10.50 a.m**.

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd W.G. Thomas a Syr David Lewis [Aelod Allanol â Phleidlais].

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

## 3. ADRODDIAD DIWEDDARU YNGHYLCH CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16. Yr oedd Rhan A yn rhoi adroddiad cynnydd ynghylch Cynllun Archwilio 2015/16 ynghyd â matrics sgorio argymhellion, ac yr oedd Rhan B yn rhoi crynodeb o'r adroddiadau terfynol a gwblhawyd ar gyfer 2015/16 mewn perthynas â'r prif systemau ariannol (o Ebrill 2015 tan y presennol).

Rhoddwyd sylw i'r mater canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder ynghylch bod yr archwiliadau dirybudd o'r staff sy'n gyfrifol am dderbyn arian parod yn cael eu cynnal yn flynyddol yn unig, gan taw'r farn oedd y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal yn amlach. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ariannol taw dyna'r broses oedd wedi bod yn weithredol yn y gorffennol, a phwysleisiodd fod y system

derbyn arian yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd a bod newidiadau mawr ar waith. Byddai hyn yn gyfle rhagorol i ddiwygio'r arferion presennol, gan gynnwys amlder cynnal archwiliadau dirybudd o'r staff sy'n gyfrifol am dderbyn arian. Ychwanegodd y byddai'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**PENDERFYNWYD bod yr adroddiad diweddaru ynghylch Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16 yn cael ei dderbyn at ddibenion monitro.**

## 4. CEFNOGI POBL - ADRODDIAD CYNNYDD

Gan gyfeirio at gyfarfod y Pwyllgor Archwilio oedd wedi ei gynnal ar 10fed Gorffennaf, 2015 (cofnod 5), cyflwynwyd adroddiad cynnydd ynghylch gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Pobl i'r Pwyllgor ei ystyried.

Yr oedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gwaith oedd wedi'i wneud hyd yn hyn gan y tîm Cefnogi Pobl er mwyn gwella'r prosesau rheoli contractau a grantiau a oedd wedi'u clustnodi gan y Rheolwr Archwilio a Risg yn y cyfarfod ar 10fed Gorffennaf, 2015.

Nodwyd bod cynnydd yn cael ei wneud ac y byddai'r mater yn cael ei fonitro gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedol.

Rhoddwyd sylw i'r mater canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd siom ynghylch bod rhai o'r gwelliannau'n cael eu gweithredu'n arafach na'r disgwyl. Y farn oedd, os oedd y Pwyllgor Archwilio'n awgrymu gwelliannau, y dylid gweithredu'r rheiny ar unwaith ac nid bob yn dipyn. Eglurodd y Rheolwr Archwilio a Risg fod yr Adran Cymunedau wedi manteisio ar gyfle i gynnal adolygiad trylwyr o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddi, gan gloriannu pa rai sy'n angenrheidiol, pa rai sy'n diwallu anghenion y cyhoedd, ac yn y blaen. Yr oedd llawer o waith wedi'i wneud hyd yn hyn, a dylai'r Pwyllgor weld bod cynnydd sylweddol wedi ei wneud erbyn y cyfarfod nesaf. Rhoddodd y Rheolwr Diogelu a Chomisiynu sicrwydd i'r Pwyllgor fod y mater hwn yn brif flaenoriaeth gan yr Adran Cymunedau.

**PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd o ran Cynllun Gweithredu'r Rhaglen Cefnogi Pobl.**

## 5. ADRODDIADAU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr Geraint Norman o Swyddfa Archwilio Cymru.

### 5.1. ADRODDIAD DIWEDDARU I'R PWYLLGOR ARCHWILIO - RHAGFYR 2015

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio oedd wedi'i wneud ynghylch yr Awdurdod gan Swyddfa Archwilio Cymru ers y cyfarfod diwethaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

### 5.2. Y LLYTHYR ARCHWILIAD BLYNYDDOL

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Llythyr Archwiliad Blynyddol oedd wedi ei lunio gan yr Archwilydd Penodedig yn unol â'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Côd Ymarfer Archwilio.

Yr oedd y Llythyr Archwiliad Blynyddol yn ymdrin â'r gwaith oedd wedi ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru ers cyhoeddi'r llythyr diwethaf ac yr oedd yn crynhoi'r prif faterion yr oedd yr Archwilydd Penodedig yn ystyried y dylid eu dwyn i sylw'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. COFNODION Y GRŴP LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol oedd wedi'i gynnal ar 7fed Medi, 2015.**

## 7. COFNODION CYFARFOD Y GRŴP LLYWIO RHEOLI RISG OEDD WEDI'I GYNNAL AR 23ain MEDI, 2015.

**PENDERFYNWYD derbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg oedd wedi'i gynnal ar 23ain Medi, 2015.**

## 8. COFNODION

Cyfeiriwyd at y ffaith fod enw Mr R. Stradling wedi'i gynnwys drwy gamgymeriad yn hytrach nag enw Mr R. Harries yn y rhestr o swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru oedd yn bresennol, a hynny ar dudalen flaen y cofnodion a hefyd o dan gofnod 5.

**PENDERFYNWYD, yn amodol ar y newidiadau uchod, lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio oedd wedi ei gynnal ar 30ain Medi, 2015 yn gofnod cywir.**

____________________ ____________________

**Y CADEIRYDD** **Y DYDDIAD**